

**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 5 EBRILL 2023**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt (Cadeirydd), S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley,  
S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn a/ac W.F.Griffiths

**Swyddogion yn bresennol:**

C.Furlow-Harris, A.Thomas, A.Thomas, H.Jones, R.George, M.Shaw,  
A.James, C.John a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Chwefror ac 1 Mawrth 2023 fel cofnod cywir.

5. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

6. **STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG**

**Penderfyniadau:**

1. Bod cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg (yn atodedig yn Atodiad 2 i'r adroddiad a ddsbarthwyd) am gyfnod o 4 wythnos.
2. Bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried gan Grŵp Tasg a Gorffen Strategaeth Hybu'r Gymraeg a bod copi terfynol Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Er mwyn sicrhau bod Castell-nedd Port Talbot yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

7. **STRATEGAETH CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Tynnwyd yr eitem hon oddi ar agenda cyfarfod heddiw gan fod y fersiwn anghywir o'r Adroddiad Ymgynghori wedi'i dosbarthu. Byddai'r strategaeth yn cael ei hailgyflwyno i'r Cabinet ar ddyddiad diweddarach.

8. **POLISI RHEOLI RISGIAU CORFFORAETHOL**

**Penderfyniad:**

Bod y Polisi Rheoli Risgiau Corfforaethol diwygiedig, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei gymeradwyo.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn cefnogi'r cyngor wrth gyflawni ei ddyletswydd i fod yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol a chynnal safonau uchel o lywodraethu corfforaethol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

9. **YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR Y BLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY**

**Penderfyniad:**

Bod yr ymateb drafft, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei gymeradwyo, a bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr i gyflwyno'i ymateb ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn ymateb i ymgynghoriad agored Llywodraeth Cymru ar Reolau drafft Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cytunodd y Cadeirydd Craffu y gellid rhoi'r eitem hon ar waith ar unwaith. Ni fyddai unrhyw gyfnod galw i mewn ar gyfer yr eitem hon.

10. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD CHWARTER 3**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad monitro yn cael ei nodi.

11. **Y DIWEDDARAF AM GAMAU GWEITHREDU BRYD**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

12. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau bryd.

**CADEIRYDD**